**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB I BOBL ANABL

**Adroddiad gan Chris Enness,**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl 2006-2009 Y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac i geisio'r Awdurdod fabwysiadu'r cynllun.

### Cefndir

**2.** Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 yn gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ac i adolygu'r Cynllun pob tair mlynedd. Y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl hwn yw Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl cyntaf y Gwasanaeth.

### Cyflwyniad

**3.** Mae Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl cyntaf y Gwasanaeth yn gosod bwriadau'r Gwasanaeth am fywyd y Cynllun hyd Rhagfyr 2009. Mae'r Cynllun yn un sydd wedi ei amserlennu ac yn realistig, sy'n gosod trefniadau'r Gwasanaeth i gwrdd â dyletswyddau cyffredinol a phenodol y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**4** Rhaid i Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl:

**Adnabod swyddogaethau a pholisïau perthnasol**
Rhaid i'r Awdurdod restru swyddogaethau a pholisïau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredin i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl yn y Cynllun.

**Asesu effaith, cynnwys, ymgynghoriad a monitro**
Wrth wireddu'r ddyletswydd hon, mae'r Cynllun yn gosod trefniadau'r Gwasanaeth i asesu effaith, cynnwys pobl anabl ac ymgynghori a monitro holl bolisïau'r Gwasanaeth.

**Mynedfa gyhoeddus i wybodaeth a gwasanaethau**
Mae angen i'r Gwasanaeth osod ei drefniadau i sicrhau fod gan y cyhoedd fynediad i'r gwybodaeth a gwasanaethau mae'n ddarparu yn y Cynllun.

**Hyfforddiant**
Mae trefniadau'r Gwasanaeth i hyfforddi ei staff yn y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun.

**Argymhelliad**

**5.** Fod aelodau yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl 2006 – 2009.